



**Cyfoeth
Naturiol**
Cymru
**Natural
Resources**
Wales

Canllaw Llwybr
Trail Guide



Coetiroedd Dyffryn Gwy Is Lower Wye Valley Woodlands

// Cyrchfan Arlunwyr a Beirdd
Haunt of Painters and Poets



wye valley

Area of Outstanding
Natural Beauty

dyffryn gwy

Ardal o Harddwch
Naturiol Eithriadol

www.cyfoethnaturiol.cymru
www.naturalresources.wales



**Cymru
Wales**



Golygfan Nyth yr Eryr
Eagle's Nest viewpoint

Dyffryn Gwy – Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol

Mae Dyffryn Gwy yn Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol â'i thirwedd sy'n ryngwladol-bwysig ac wedi'i diogelu, yn pontio'r ffin rhwng Cymru a Lloegr. Fe'i dynodwyd yn 1971, ac amgylchyna 58 milltir o Afon Gwy sy'n enwog am olygfeydd ysblennydd o geunentydd, coetiroedd dyfnant a fferm-diroedd. Mae amrywiaeth o bartneriaid yn cydweithio i ddiogelu a gwella ei harddwch ar gyfer heddiw ac i'r dyfodol.

Wye Valley – Area of Outstanding Natural Beauty

The Wye Valley Area of Outstanding Natural Beauty (AONB) is an internationally important protected landscape straddling the border between England and Wales. Designated in 1971, it surrounds a 58 mile stretch of the River Wye recognised for its spectacular gorge scenery, ravine woodlands and intimate farmland. A range of partners work to conserve and enhance its beauty for now and the future.

www.wyevalleyaonb.org.uk

Ffoto Clawr/Cover photo: © Gemma Wood



Coetiroedd Dyffryn Gwy

Cyrchfan Arlunwyr a Beirdd

Croeso i goetiroedd godre Dyffryn Gwy, rhai o'r prydferthaf ym Mhrydain.

Mae gan bob tymor rywbeth arbennig i'w gynnig: clychau'r gog yn y gwanwyn, dail toreithiog yr haf, lliwiau godidog yr hydref, a harddwch amlinell y coed yn y gaeaf. Dewch i weld coed deri a ffawydd mawreddog ynghyd â'r onnen, y pren ceirios a'r bisgwydden dail bach. Rydym yn cynnal y golygfeydd hanesyddol trwy dorri'r coed. Maent yn cynnig golygfeydd ysblennydd ar draws ceunant ac afon Gwy, ar draws i Fôr Hafren a'r hen Bont Hafren. Gallwch fwynhau'r golygfeydd godidog hyn drwy gydol y flwyddyn ond yn enwedig yn y gaeaf, ar ôl i'r dail syrthio.

Yn gyfoeth o harddwch ac adnoddau naturiol, denwyd arlunwyr a diwydianwyr fel ei gilydd i Ddyffryn Gwy. Oherwydd helaethrwydd y siarcol, y calch, y pren, y dŵr a'r haearn, gwelwyd unwaith efeilliau, chwareli, odybau a melinau ar hyd a lled y dyffryn. Dyma fan geni twristiaeth ym Mhrydain, gan ddenu arlunwyr a beirdd o Turner i Wordsworth.

Wye Valley Woodlands

Haunt of Painters and Poets

Welcome to the woodlands of the lower Wye Valley, some of the most beautiful in Britain.

Every season offers something special: bluebells in spring, lush summer leaves, fantastic autumn colour, and the beauty of winter tree silhouettes. Discover stately oak and beech trees as well as ash, cherry and small-leaved lime. We keep the historic viewpoints open by cutting back the trees. These offer spectacular views across the Wye gorge and river, across to the Bristol Channel and the old Severn Bridge. You can enjoy these great views year-round but especially in winter, when the leaves have fallen.

Rich in natural beauty and natural resources, the Wye Valley has attracted both artists and industrialists. Abundant charcoal, limestone, timber, iron and water, meant the lower Wye valley once teemed with forges, quarries, kilns and mills. As the birthplace of British tourism, a tour down the Wye also drew painters and poets from Turner to Wordsworth.

Rhyfeddodau Whitestone

Yma cewch ddarganfod golygfannau hanesyddol wrth i chi gerdded llwybr 'Rhyfeddodau Whitestone' sy'n edrych dros geunant ac afon ddramatig Gwy. Mae'r golygfannau hyn ar hyd Llwybr Dyffryn Gwy, sy'n rhedeg o Gas-gwent yr holl ffordd i darddiad afon Gwy yng Nghanolbarth Cymru.



Pellter: 1½m/2.3km

Amser: 1¼ awr

Gradd: hawdd

Dringo: tir gwastad yn bennaf, un darn caregog

Uchafbwyntiau:

Gwelwch dri golygfan dros Ddyffryn Gwy ac ewch yn eich ôl drwy gymysgedd deniadol o goetiroedd.

The Wonders of Whitestone

Here you can discover some historic viewpoints along the 'Wonders of Whitestone' trail overlooking the dramatic Wye gorge and river. These viewpoints are on the route of the Wye Valley Walk which runs from Chepstow all the way to the source of the River Wye in Mid Wales.



Distance: 1½m/2.3km

Time: 1¼ hours

Grade: easy

Climb: mainly level, one stony section

Highlights:

Take in the three dramatic viewpoints over the Wye Valley and return through an attractive mix of woodlands.



Oeddech chi'n gwybod?

Yr ysbrydolwyd arlunwyr fel Turner a beirdd fel Wordsworth gan Ddyffryn Gwy.

Ffaith: Ysgrifennodd Wordsworth "Lines Composed a Few Miles above Tintern Abbey" ger golygfan uchaf Whitestone.

Did you know?

The Wye Valley inspired painters like Turner and poets like Wordsworth.

In fact: Wordsworth wrote "Lines Composed a Few Miles above Tintern Abbey" near the top Whitestone viewpoint.



Golygfan Duchess Ride



Pellter: 4m/6km

Amser: 2 awr

Gradd: hawdd

Dringo: tir gwastad yn bennaf

Uchafbwyntiau:

Dilynwch y marciau llwybr ar gyfer Llwybr Dyffryn Gwy at rodfa o goed pinwydd yr Alban a golygfan Duchess Ride a'r fainc - lle da i gael cinio! Dilynwch eich llwybr yn ôl i Whitestone.



Golygfan
Duchess Ride
Viewpoint



Golygfan uchaf
Whitestone
top viewpoint

Duchess Ride Viewpoint



Distance: 4m/6km

Time: 2 hours

Grade: easy

Climb: mainly level

Highlights:

Follow the Wye Valley Walk waymarkers to an avenue of huge Scots pine trees and the Duchess Ride viewpoint with a welcome bench - great lunch spot! Retrace your steps back to Whitestone.



© Gemma Wood

Whitestone





Lower Wyndcliff:

Gallwch weld golygfa hardd o'r fan hon

O'r olygfaf gallwch weld ar draws y tro yn afon Gwy, o amgylch Penrhyn Llan Cewydd i greigiau llam Wintour, top yr hen Bont Hafren a choetiroedd ceunant unigryw sy'n glynu wrth ochrau'r ceunant. Am olygfa hyd yn oed gwell gallwch ddilyn Llwybr Nyth yr Eryr i gyrraedd Golygfaf Nyth yr Eryr, lle gallwch weld bryniau Mendip a'r Cotswolds.

Oeddech chi'n gwybod?

Mae rhan o daith gerdded hanesyddol **Piercefield Pictiwrésg** yn torri drwy'r rhan hon ac roedd yn hanfodol i ymwelwyr ers talwm. Crëwyd y rhan fwyaf ohono rhwng 1752 a 1772 gan Valentine Morris yr Ieuengaf a dilynai glogwyn afon Gwy, gan ymestyn i fyny'r 365 o Risiau at olygfaf Nyth yr Eryr. Lawrlwythwch y daflen o www.wyvalleyaonb.org.uk, o dan 'Publications'.

Mae Coed Wyndcliff yn enghraifft odidog o Goetiroedd Ceunant Godre Dyffryn Gwy â'i awydd hynafol â'r ac yw yn ogystal â phisgwydd, ynn a choedlan gyll.

Lower Wyndcliff:

You can get a beautiful view from here

From the viewpoint you can see across the bend in the Wye, round the Lancaut Peninsular to the rocks of Wintour's leap, the top of the old Severn Bridge and the unique ravine woodlands which cling to the sides of the gorge. For an even better view you can follow the Eagle's Nest Trail to reach the spectacular Eagle's Nest Viewpoint and, on a clear day, see the Cotswold and Mendip hills.

Did you know?

The **Picturesque Piercefield** historic walk runs through here and was essential for Wye tourists of the day. It was largely created from 1752-1772 by Valentine Morris the Younger and followed the Wye river cliffs and extended up the 365 Steps to the Eagle's Nest viewpoint. Download the leaflet from www.wyvalleyaonb.org.uk, under 'Publications'.

Wyndcliff Wood is a superb example of the lower Wye Valley Gorge Woodlands with ancient beech and yew as well as lime, ash and hazel coppice.



© Gemma Wood

Upper Wyndcliff: Y Porth i ‘Nyth yr Eryr’

Mae'n rhaid bod yr olygfa o wylfa Nyth yr Eryr gyda'r orau yn Nyffryn Gwy. Edrychwch ar draws y tro yn afon Gwy i weld creigiau llam Wintour, dwy bont ac aber Hafren, ac ar ddiwrnod clir, bryniau'r Cotswold a'r Mendip. Hefyd cewch olygfa ardderchog o'r coetiroedd unigryw sy'n glynu wrth ochrau'r ceunant. Os ydych am ei gweld dilynwch Lwybr Nyth yr Eryr.

Mae llwybr hir Dyffryn Gwy yn mynd trwy Goed Wyndcliff a gallwch ymuno â'r llwybr o'r maes parcio hwn - edrychwch ar y panel gwybodaeth. Drwy barcio ym maes parcio Wyndcliff Uchaf gallwch fwynhau'r olygfa a'r ddisgynfa hudolus gan osgoi'r ddringfa serth a'r 365 o Risiau.

Llwybr Nyth yr Eryr



Pellter: 1¼m/2km
Amser: 1 awr
Gradd: hawdd

Dringo: 100m/330 troedfedd grisiau anwastad i lawr
Uchafbwyntiau: Gyda'r cloc:
Rhyfeddwch at Olygfan Nyth yr Eryr ac yna ewch i lawr y 365 o Risiau. Ewch yn ôl i'r maes parcio drwy goetir deniadol.

Upper Wyndcliff: Gateway to the ‘Eagle’s Nest’

The view from the Eagle's Nest lookout has to be one of the best in the Wye Valley. Look across the bend in the Wye to see the rocks of Wintours leap, the Severn bridges and estuary and, on a clear day, the Cotswold and Mendip hills. You also get a great view of the unique woodlands which cling to the sides of the gorge. Follow the Eagle's Nest Trail to experience it.


The long distance Wye Valley Walk passes through Wyndcliff Wood and you can join the walk from this car park - see the information panel. Parking at Upper Wyndcliff car park allows you to enjoy the viewpoint and the enchanting descent of the 365 Steps avoiding steep climbs.

Eagle's Nest Trail



Distance: 1¼m/2km
Time: 1 hour
Grade: Easy

Climb: 100m/330ft uneven steep steps downhill
Highlights: Clockwise:
Marvel at the Eagle's Nest Viewpoint and then go down the 365 Steps. Return to the car park through attractive woodland.



Golygfa Ban:

dim ond taith fer o'r maes parcio mae ein golygfan sy'n endrych draw at Fannau Brycheiniog.
Os ydych yn teimlo'n fwy egnïol gallwch ymweld â'r ardal lle mae'r rhostir yn cael ei adfer gennym. Wedyn, gellir symud ymlaen at Olygfan Duchess Ride.

Llwybr Ban



Pellter: 1.5m/2.4km

Amser: 1 awr

Gradd: hawdd

Dringo: tir gwastad yn bennaf

Uchafbwyntiau:

Ceir dychweliad tirwedd hynafol ar y daith gerdded hamddenol hon i ardaloedd rhostir sy'n cael eu hadfer.

Adferwch y rhostir! –

Prosiect Adfer y Rhostir

Mae rhostir a llecynnau agored yn rhan bwysig o goedwig, yn cynnig cartref i nifer o anifeiliaid a phlanhigion. Roedd gan fforestydd hynafol lawer o rostir. Yn awr mae rhostir tir isel yn gynefin prin o dan fgythyriad a rhaid i ni helpu i'w achub. A oeddech chi'n gwybod bod tua 20% o rostir y byd yn y DU? Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi nodi ardaloedd yn Nyffryn Gwy a oedd yn rhostir gynt. Rydym wedi clirio pinwydd ar Beacon Hill er mwyn cynorthwyo ei ddychweliad. Wrth i'r grug adfer bydd anifeiliaid sy'n pori yn helpu cadw rhywogaethau ymosodol fel bedw, eithin a rhedyn rhag meddiannu'r lle.

Beacon View:

it's just a short walk from here to our view of the Beacon Beacons.

If you feel more energetic please visit our heathland restoration area. From there you can continue to the Duchess Ride Viewpoint.

Beacon Bimble



Distance: 1.5m/2.4km

Time: 1 hour

Grade: easy

Climb: mainly level

Highlights:

Discover the return of an ancient landscape on this gentle walk to our recovering heathland areas.

Bring back the heath! –

The Heathland Restoration Project


Heathlands and open space are an important part of a forest, providing a home for many plants and animals. Ancient forests had lots of heathlands. Now lowland heathland is a rare and threatened habitat and we must help save it. Did you know the UK has about 20% of the world total? Natural Resources Wales have identified areas in the Wye Valley that were heathland in the past. We have cleared areas of pines on Beacon Hill to help it return. As the heather recovers, grazing animals will help to keep aggressive species such as birch, gorse, and bracken from taking over.

© Hawffraint a hawliau cronfa ddata'r Goron 2018. Cedwir pob hawl. Rhif Trwydded yr Arolwg Ordnans 100019741
© Crown copyright and database right 2018. Ordnance Survey Licence number 100019741

Golygfa Ban Beacon View



Golygfan Duchess Ride Viewpoint



Taith Grwydr Duchess Ride



Pellter: 3m/4.7km
Amser: 1½ awr
Gradd: hawdd
Dringo: tir gwastad yn bennaf

Uchafbwyntiau:

Mwynhewch y rhostir a'r coetiroedd ar eich ffordd i rodfa o goed anferth pinwydd yr Alban a golygfan ac eisteddfainc Duchess Ride (lle da i gael ciniol!) - cewch ymgolli yn ysblander Dyffryn Gwy a'i holl ogoniant o'r fan hon.


Duchess Ride Ramble



Distance: 3m/4.7km
Time: 1½ hour
Grade: easy
Climb: mainly level

Highlights:

Enjoy heathlands and woodlands on your way to an avenue of huge Scots pine trees and the Duchess Ride viewpoint (with a welcome bench - great lunch spot!) - here you can soak up the splendour of the Wye Valley in all it's magnificence.



Coed Manor:

Efallai ei bod yn dawel yma yn awr

ond arferai'r fan yma fod yn goetir gweithredol prysur. Yn ogystal â gweddillion pyllau golosg a phyllau llifio, ceir arwyddion eraill o ddiwydiant ynghudd yn y coedydd. Rhowch gynnig ar un o'n llwybrau arwyddbyst - nid ydynt byth ymhell o Nant Manor.

Llwybr Coed Manor



Pellter: 2m/3.3km

Amser: 1½ awr

Gradd: anodd

Dringo: 110m/360 troedfedd

Uchafbwyntiau:

Yr uchafbwynt mae'n rhaid yw Golygfan Whitebrook Valley, ond mae coedydd tawel yn llawn apêl drwyddi draw.

Manor Wood:

it might seem quiet now

but this used to be a busy working woodland. As well as remnants of charcoal and sawing pits, there are other signs of industry hidden away in the woods. Try one of our walks never far from Manor Brook.

Manor Wood Walk



Distance: 2m/3.3km

Time: 1½ hours


Grade: difficult

Climb: 110m/360ft

Highlights:

The highlight has to be the Whitebrook Valley Viewpoint, but the tranquil woods are appealing throughout.

© Hawlfraint a hawliau cronfa ddata'r Goron 2018. Cedwir pob hawl. Rhif Trwydded yr Arolwg Ordnans 100019741
© Crown copyright and database right 2018. Ordnance Survey Licence number 100019741



© Hawlfraint a hawliau cronfa ddata'r Goron 2018. Cedwir pob hawl. Rhif Trwydded yr Arolwg Ordnans 100019741
© Crown copyright and database right 2018. Ordnance Survey Licence number 100019741

Manor Brook Leap



Distance: 1m/1.5km

Time: ¾ hour

Grade: difficult

Climb: 60m/200ft

Highlights:

Dust off your hiking boots for part of the return leg of this walk literally following the course of Manor Brook. Be prepared for rocks, water and the odd 'leap'!

(care required as the walk crosses the stream in several places and there is lots of uneven ground).

Whitebrook Valley Viewpoint

This peaceful scene was once a hive of activity. The pure waters of the Whitebrook were particularly suitable for paper making. Within living memory carts of rags were taken up to the paper mills along the Whitebrook. There was also a corn mill and cider mill.

Naid Manor Brook



Pellter: 1m/1.5km

Amser: ¾ awr

Gradd: anodd

Dringo: 60m/200 troedfedd

Uchafbwyntiau:

Cewch fwrw'r llwch oddi ar eich esgidiau cerdded wrth i chi gerdded yn ôl o'r daith gan ddilyn rhan o rediad nant Manor Brook. Byddwch yn barod am greigiau, dŵr ac ambell i 'naid'!

(angen gofal gan fod y daith yn croesi'r nant mewn sawl man ac mae yna lawer o dir anwastad).

Golygfyn Dyffryn Whitebrook

Roedd y lleoliad tawel hwn unwaith yn ferw o brysurdeb. Roedd dyfroedd pur Whitebrook yn addas ar gyfer gwneud papur. Mae yna bobl sy'n fyw heddiw a all ddwyn i gof weld certiau'n llawn carpiâu yn mynd i fyny ar hyd Whitebrook at y melinau papur. Roedd yna felin yd a melin seidr hefyd.



Naid Manor Brook
Manor Brook Leap

Lleoedd eraill i ymeld â nhw yn Nyffryn Gwy

Other places to visit in the Lower Wye Valley




Airbus Defence & Space a Getmapping.
Atgynhychwyd drwy ganiatâd Llywodraeth Cymru
(Taliadau Gwladol Cymru) - Mehefin 2017.
© Airbus Defence & Space and Getmapping.
Reproduced by permission of Welsh Government
(Rural Payments Wales) - June 2017



LAWRLWYTHWCH EIN
**APIAU
DI-DÂL**
ar gyfer Android ac iPhone

DOWNLOAD OUR
FREE APPS
for Android and iPhone

CYMRU | WALES
PlacesToGo



iPhone



Android

I ganfod lleoedd eraill ardderchog CNC
y gellir ymweld â hwy yng Nghymru.

To find other great NRW places
to visit in Wales.

CYMRU | WALES
PlaceTales



iPhone



Android

I ganfod nodweddion hynod
ddifyr yng nghoedwigoedd
CNC a Gwarchodfeydd
Natur Cenedlaethol.

To discover fascinating features in NRW
forests and National Nature Reserves.



parcio
parking



toiledau
toilets



gwybodaeth
information



llwybr cyhoeddus
public footpath



llwybr marchogaeth
public bridleway



Llwybr Dyffryn Gwy
Wye Valley Walk



Llwybr Clawdd Offa
Offa's Dyke Path



llwybrau cerdded
walking trails



lle picnic
picnic area



caffi
café



golygfannau
viewpoint



0300 065 3000
www.cyfoethnaturiol.cymru
www.naturalresources.wales

www.wyevalleyaonb.org.uk

Os hoffech yr wybodaeth hon mewn fformat arall,
cysylltwch â ni: Ffôn: 0300 065 3000
Ebost: [ymholiadau@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk](mailto:yholiadau@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk)

If you would like this information in an alternative format,
please contact us: Phone: 0300 065 3000
Email: enquiries@naturalresourceswales.gov.uk



Arwydd o
goedwigaeth gyfrifol
The mark of
responsible forestry

Mae coedwigoedd Cyfoeth Naturiol
Cymru wedi'u hardystio'n unol â
rheolau'r Forest Stewardship Council®

Natural Resources Wales forests
have been certified in accordance
with the rules of the Forest
Stewardship Council®

Argraffwyd ar bapur
Revive Offset wedi'i
ailgylchu 100%

Printed on Revive Offset
100% recycled paper

